

## **Arolygiad o Bractis Meddygon Teulu (Ile rhoddwyd rhybudd)**

Meddygfa Minafon / Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	7
3.	Yr hyn a ganfuom.....	9
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	25
4.	Beth sydd nesaf? .....	28
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Feddygfa Minafon yn Hillfield Villas, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 4UL, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 21 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom nifer o faterion sydd angen eu gwella ac sydd angen ystyriaeth ofalus gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion.

Roedd y rhyngweithiadau rhwng y staff a'r cleifion yn urddasol ac yn gwrtais. Gwelwyd aelodau staff yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.

Nodwyd gwendidau o fewn arweinyddiaeth a rheolaeth, ac roedd y bwrdd iechyd yn ymwybodol o hyn, ac roeddent wedi dechrau ar y broses o'u datrys. Nid oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ac mae'r gwelliannau hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparu amrywiaeth dda o ddeunydd addysg iechyd / hyrwyddo iechyd
- Staff cyfeillgar yn helpu cleifion mewn ffordd urddasol
- Roedd y fferyllydd yn ymgymryd â phrosiectau i wella canlyniadau i gleifion
- Grŵp Cyfranogiad Cleifion brwdfrydig a rhagweithiol, yn ymroddedig i sicrhau bod y cleifion yn derbyn y gwasanaethau gorau posibl

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefniadau ynghylch preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn ystod trafodaethau dros y ffôn yn swyddfa'r dderbynfa
- Dogfennu ymgynghoriadau cleifion
- Trefniadau atal a rheoli heintiau

- Darpariaeth o hyfforddiant staff
- Mwy o gyfarfodydd staff a dysgu yn sgil digwyddiadau arwyddocaol
- Argaeledd y broses gwyno
- Yr holl staff i gael arfarniad blynyddol
- Cefnogaeth a chymorth i'r staff yn ystod yr anawsterau staffio sy'n bodoli ar hyn o bryd

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Minafon yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 4,300 o gleifion yn ardal Cydweli, Trimsaran a Glanyfferi. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un meddyg teulu cyflogedig parhaol, un meddyg teulu rhan amser parhaol, tair nyrs bractis rhan amser, un uwch-ymarferydd nyrsio rhan amser (yn darparu gwasanaeth un diwrnod pob pythefnos), un cynorthwydd gofal iechyd rhan amser, a thîm o dderbynyddion a staff gweinyddol. Roedd rheolwr practis newydd ar fin dechrau ei gyflogaeth yn y practis ymhen y pythefnos nesaf, ar ôl i'r practis fod heb reolwr am tua saith wythnos. Ar hyn o bryd, roedd y bwrdd iechyd yn ceisio recriwtio i nifer o swyddi yn y practis ac roedd y rhain yn cynnwys meddygon teulu, a nifer o nyrsys practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys:

- Rheoli clefydau cronig megis diabetes, asthma, a chlefyd cronig sy'n amharu ar yr anadlu
- Cyngor a brechiadau teithio
- Brechiadau ac imiwneiddiadau (oedolion a phlant)
- Cadw golwg ar iechyd plant
- Atal cenhedlu
- Sgrinio serfigol ceg y groth
- Fflebotomi

I hwyluso'r darllen, cyfeirir at Feddygfa Minafon fel y 'practis' trwy gydol yr adroddiad hwn.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, roedd cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn y practis. Gwnaeth cleifion nodi bod y staff yn barod eu cymwynas ac yn darparu gofal a thriniaeth mewn ffordd urddasol a chwrtais.

Ar y cyfan, roedd yr adeilad a'r amgylchedd wedi'u cynnal a'u cadw yn ddigonol ond roedd rhai materion wedi'u nodi a oedd angen gwelliannau er mwyn cael gwared ar beryglon posibl i gleifion a phobl a oedd yn ymweld â'r practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion yn y practis i gwblhau holiadur AGIC er mwyn casglu barn ar y gwasanaethau a ddarparwyd.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 holiadur. Roedd yr holl holiaduron a gwblhawyd yn cael eu derbyn gan gleifion oedd wedi bod â'r practis am fwy na dwy flynedd. Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; fodd bynnag, nodwyd pryderon gan rai cleifion ynghylch y broses o wneud apwyntiad.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth."*

*"Rwy'n credu ei fod yn well nag ydoedd o'r blaen."*

*"Angen diweddarau'r addurniadau, ddim yn groesawgar a chyfeillgar."*

*"Angen ei wneud yn haws i weld y meddyg rwy'n dewis ei weld."*

## Cadw'n iach

Gwelsom amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd a lles ac addysgiadol ar gyfer pobl, a oedd wedi'i harddangos yn y man aros. Roedd yn bleser nodi bod

amrywiaeth eang o wybodaeth yn yr iaith Gymraeg ar gael, wedi'i chyflenwi gan y bwrdd iechyd. Roedd copïau o daflen y practis ar gael hefyd; fodd bynnag, roedd dwy fersiwn wahanol ar gael. Gwnaethom argymhell bod y bwrdd iechyd yn sicrhau mai dim ond y fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael, gan gael gwared ar hen fersiynau. Roedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn y llawlyfr yn addysgiadol ac yn berthnasol i anghenion y cleifion.

Prin iawn oedd yr wybodaeth am y practis a oedd ar gael ar wefan GIG Cymru. Nid oedd y practis wedi datblygu ei wefan ei hun.

Roedd digon o ddeunydd darllen ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth a chymorth i bobl sydd â chyfrifoldebau gofal yn y practis. Roedd y staff yn gallu adnabod y cleifion hyn oherwydd y systemau a oedd ar waith yn ogystal â'u gwybodaeth am y boblogaeth leol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai dim ond y llyfryn practis mwyaf cyfredol sydd ar gael.

## Gofal ag urddas

Roedd rhai cadeiriau wedi'u gosod mewn coridor ger desg y dderbynfa. Ar ddiwrnod ein harolygiad, roedd y tywydd yn gynnes iawn ac oherwydd hyn nid oedd y staff yn cau drws y swyddfa/derbynfa. Roedd hyn yn cynyddu'r tebygrwydd y byddai sgysiau yn cael eu clywed ac roedd yn peryglu diogelwch cofnodion cleifion oedd yn cael eu storio yn y lleoliad hwn. Felly, dylai'r practis archwilio opsiynau ar sut y gall preifatrwydd gael ei hyrwyddo ymhellach yn hyn o beth. Cawsom ein cynghori y byddai ystafell ar gael pe bai cleifion yn dymuno siarad â nyrs y practis mewn preifat ymhell wrth ddesg y dderbynfa a'r man aros.

Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori wedi'u lleoli i ffwrdd o'r brif ardal aros. Roedd hyn yn gymorth i leihau'r posibilrwydd bod ymgynghoriadau'r cleifion yn cael eu clywed gan bobl yn y man aros. Roedd yr holl ystafelloedd triniaeth ar gau tra oedd staff yn trin cleifion. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff yn cymryd camau priodol i hyrwyddo cyfrinachedd cleifion.

Roedd sgriniau a llenni hefyd ar gael yn yr holl ystafelloedd ymgynghori a welwyd ac eithrio un. Cawsom ein hysbysu bod yr ystafell yn cael ei defnyddio o bryd i'w gilydd. Rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r holl ystafelloedd lle mae

ymgyngoriadau yn cael eu cynnal gynnwys llenni priodol ar bob adeg er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal ar bob adeg.

Roedd hysbysiadau yn y man aros a oedd yn hysbysu cleifion ynghylch eu hawl i gael hebryngwr yn bresennol yn ystod eu hymgyngoriad. Roedd polisi hebryngwyr ar gael yn y practis. Byddai'r staff clinigol yn bennaf yn darparu'r gwasanaeth hebrwng.

Roedd bron i bob claf a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd werthuso a rhoi trefniadau priodol ar waith i leihau'r tebygrwydd o sgysiau'n cael eu clywed (gan bobl sy'n aros yn y coridor y tu ôl i ddrws y dderbynfa) pan fydd cleifion/gofalwyr yn siarad â staff y dderbynfa.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni ar gael yn yr holl ystafelloedd ymgynghori ar bob adeg.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis wedi datblygu taflen fel y soniwyd yn gynharach. Nid oedd gan y practis wefan benodol, ond roedd gwybodaeth sylfaenol iawn ar gael trwy wefan [GIG Cymru <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=600>](http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=600). Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn yn unig oherwydd roedd ceisiadau apwyntiadau yn cael eu brysennu mewn practis arall yn Abertawe. Roedd ceisiadau am apwyntiadau dros y ffôn yn cael eu rhaedru a'u brysennu. Yn dilyn yr asesiad dechreuol hwn, byddai meddyg teulu yn ffonio'r cleifion yn uniongyrchol ac yn trafod eu pryderon/anghenion. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, byddai'r meddyg teulu yn gwerthuso beth fyddai'r cam gweithredu gorau ac yn trefnu apwyntiad yn ôl yr angen. Roedd y trefniant hwn yn cyflwyno her i'r practis oherwydd roedd safon y nodiadau a gymerwyd yn y practis arall yn cael ei disgrifio fel amrywiol, gan greu problemau posibl â pharhad y gofal pan fydd claf yn cael ei weld gan feddyg teulu gwahanol, fel sy'n anochel.

Gallai cleifion nad oedd angen apwyntiad gan y meddyg teulu hefyd dderbyn apwyntiadau gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd perthynol megis nyrsys y practis.

Yn ystod trafodaethau â'r meddygon teulu yn ystod yr arolygiad, daeth i'r amlwg eu bod yn darparu cyngor, gwybodaeth ysgrifenedig a phwyntiau cyfeirio drwy dudalennau gwe'r rhyngwyd er mwyn i gleifion ddysgu mwy am eu cyflyrau. Yn ogystal, cafodd cleifion eu hysbysu ynghylch archwiliadau gofynnol a'r opsiynau rheoli a oedd ar gael. Yn anffodus, nid oedd y sgysiau/trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn mewn cofnodion cleifion. Cynghorir y bwrdd iechyd i fonitro'r maes ymarfer hwn a sicrhau bod cofnodion cleifion cyflawn a chywir yn cael eu cynnal.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys amrywiaeth dda o wybodaeth ychwanegol megis amseroedd agor y feddygfa, ymweliadau â'r cartref, mynediad, a gwasanaethau'r tu allan i oriau / gwasanaethau brys. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys enwau'r holl staff a oedd yn cael eu cyflogi yn y practis. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod bron i draean y cleifion a wnaeth ateb yr holiaduron wedi nodi na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau. Cynghorir y bwrdd iechyd i barhau i dynnu sylw at y gwasanaethau tu allan i oriau sydd ar gael a sicrhau bod yr wybodaeth gyswllt ar gael yn y practis ar gyfer y cleifion.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen monitro cofnodion cleifion a'u harchwilio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth frysbenneu yn cael ei chynnwys a bod cofnodion o ymgynghoriadau yn cael eu cwblhau mewn ffordd gynhwysfawr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael yn y practis ac y tu allan ynghylch manylion cyswllt y gwasanaethau y tu allan i oriau.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd tua thraean o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a dywedodd y mwyafrif wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol yn y practis. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a wnaeth gwblhau holiadur eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Yn ystod ein hymweliadau, gwelsom staff yn siarad â chleifion yn Gymraeg ac roedd hyn yn benodol o bwysig ar gyfer grwpiau cleifion penodol am mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf.

Gwnaeth mwyafrif y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau y gofynnir cwestiynau iddynt ynghylch eu problem feddygol pan fyddant yn ceisio trefnu

apwyntiad; fodd bynnag, dywedodd bron i draean o'r cleifion nad oeddent yn gwybod pam eu bod yn cael eu holi ynghylch hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd / staff sy'n gweithio yn y practis hysbysu cleifion am yr angen i holi cwestiynau perthnasol sy'n ymwneud â'u hiechyd er mwyn cynorthwyo gyda'u gofal a'u triniaeth yn y practis.

## Gofal amserol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod naill ai'n fodlon iawn, neu'n weddol fodlon, ar nifer yr oriau roedd y practis ar agor.

Roedd yr holiaduron yn adlewyrchu rhywfaint o anfodlonrwydd ymhlith cleifion ynghylch y broses o drefnu apwyntiad. Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion sut y gallai'r practis meddyg teulu wella ar y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, ac roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn nodi:

*"Dydw i ddim yn hoffi aros i'r meddyg roi galwad ffôn yn ôl i mi wrth i mi wneud apwyntiad."*

*"Gwell llinell ffôn, mwy o feddygon, gallu gweld meddyg o'ch dewis."*

Dywedodd mwy na thraean o bobl a wnaeth gwblhau holiadur 'nad oedd yn hawdd iawn' neu 'ddim yn hawdd o gwbl' i gael apwyntiad pan oedd angen. Adlewyrchid y problemau hyn yn yr atebion a roddwyd yn yr holiadur i gwestiwn a oedd yn gofyn i gleifion ddisgrifio eu profiad cyffredinol o wneud apwyntiad. Er bod mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wedi dweud wrthym fod eu profiad yn dda, dywedodd un chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod eu profiad naill ai'n wael neu'n wael iawn. Rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso'r maes hwn o wasanaeth yn barhaus er mwyn sicrhau bod barn cleifion yn cael ei chlywed ac yn cael ei gweithredu arni mewn modd trwyadl.

Roedd yr holl atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud dan ofal y meddyg teulu cyflogedig llawn amser. Cafodd atgyfeiriadau eu gwneud drwy lythyron. Byddai'r staff yn cysylltu â'r gwasanaeth atgyfeirio er mwyn sicrhau ei fod wedi derbyn yr atgyfeiriad. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw brosesau ar waith a fyddai'n sicrhau bod cleifion wedi derbyn apwyntiad gydag arbenigwr. Cawsom ein hysbysu gan staff y practis eu bod yn cynghori staff i alw heibio / cysylltu â'r practis yn uniongyrchol pe na baent yn derbyn apwyntiad ar ôl dwy i dair wythnos yn dilyn eu hymweliad cychwynol â'r practis. Dylai'r practis sicrhau ei

fod yn gallu sefydlu p'un a yw ceisiadau ar gyfer atgyfeiriadau ar frys wedi cael eu bodloni gydag apwyntiad.

Nid oedd cyfraddau atgyfeirio yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd na'u trafod mewn perthynas â meddygon teulu eraill y practis nac yn lleol o fewn yr ardal. Roedd hyn yn bennaf oherwydd dibyniaeth sylweddol ar feddygon teulu dros dro. Cynghorir y practis i werthuso'r maes ymarfer hwn a chyflwyno systemau i adolygu cyfraddau atgyfeirio er mwyn nodi tueddiadau/anghysondebau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r system apwyntiadau gyfredol a nifer yr apwyntiadau sydd ar gael, gan sicrhau bod barn y cleifion yn cael ei hystyried a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn unol â hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo brosesau ar waith i sicrhau bod cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer ymgynghoriadau arbenigol ar frys mewn ysbytai wedi derbyn cadarnhad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn gan yr ysbyty a fydd yn eu derbyn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu systemau a fydd yn ei alluogi i werthuso'r atgyfeiriadau sydd wedi cael eu gwneud at arbenigeddau eilaidd a thrydyddol mewn ysbytai.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Byddai fferylllydd sy'n gweithio yn y practis a'r meddygon yn ymgymryd ag adolygiadau o feddyginiaethau er mwyn nodi unrhyw faterion a bodloni gofynion iechyd cleifion sydd angen gwiriadau iechyd rheolaidd. Roedd y meddyg teulu parhaol yn cyfarfod ag arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol, y tîm gofal lliniarol a thimau iechyd meddwl cymunedol, i drafod gofal a thriniaeth cleifion. Gwnaethom mai prin iawn ar hyn o bryd, oherwydd y swyddi gwag ar gyfer meddygon teulu, oedd y cyfarfodydd mewnol a oedd yn cael eu cynnal yn y practis. Oherwydd y rheswm hwn, nid oedd gwybodaeth oddi wrth asesiadau nac adolygiadau yn cael ei thrafod er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan y practis yn ddigonol nac yn briodol. Argymhellir i glinigwyr y practis a'r staff ymgymryd â chyfarfodydd rheolaidd er mwyn galluogi i'r holl staff perthnasol drafod anghenion cleifion a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.

Cawsom wybod bod cleifion yn cael eu hannog i hysbysu staff y practis pe bai unrhyw newidiadau ar y gweill yn eu hanghenion iechyd / anghenion

cymdeithasol ynghylch y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan y practis. Roedd nodiadau yn cael eu gosod mewn cofnodion cleifion hefyd, a fyddai'n tynnu sylw aelodau'r staff at y ffaith fod gan glaf anghenion ychwanegol, a byddai'n bosibl wedyn i drefniadau priodol gael eu rhoi ar waith. Roedd gan y practis system dolen sain ar gael i gleifion sydd ag anawsterau clywed. Yn ogystal â hyn, gellir gwneud cais am wasanaethau cyfieithu a Braille. Roedd hysbysfwrdd gofalwyr yn ardal y dderbynfa a oedd yn llawn gwybodaeth ddilys.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ailgydio mewn cyfarfodydd practis er mwyn galluogi'r holl staff i gyfarfod yn rheolaidd a thrafod a chynllunio anghenion gofal iechyd cleifion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

### Hawliau pobl

Gwelsom gleifion yn cael eu cefnogi gan deulu a ffrindiau yn ystod eu hymgyngoriad. Roedd cleifion yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â staff y practis. Roedd gan y practis ddyfais 'mewngofnodi' electronig ar waith, a oedd hefyd yn ddwyieithog.

Roedd y bwrdd iechyd wedi creu pecyn ar gyfer ffoaduriaid i gefnogi ffoaduriaid o Syria a oedd wedi derbyn lloches yn y cyffiniau. Roedd gan y bwrdd iechyd weithdrefnau a oedd yn berthnasol i bobl ddigartref a theithwyr ac roedd y rhain ar gael i'r holl staff eu gweld a dod yn gyfarwydd â'u cynnwys.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y practis Grŵp Cyfranogiad Cleifion ar waith gyda chylch gorchwyl sefydledig. Gwnaethom gyfarfod ag un o'r aelodau yn ystod yr arolygiad ac roedd yn gadarnhaol clywed brwdfrydedd ac angerdd yr aelod hwn wrth yrru'r gwasanaeth yn ei flaen. Roedd cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal ond nid oedd copïau o gofnodion y cyfarfodydd hyn o'r Grŵp Cyfranogiad Cleifion wedi cael eu cyhoeddi. Er mwyn sicrhau didwylledd a thryloywder, rydym yn argymhell bod y cofnodion hyn yn cael eu darparu i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion yn gallu adolygu cynnwys y cyfarfodydd a'u bod yn gallu codi materion yn uniongyrchol â'r grŵp yn y dyfodol.

Nododd bron i ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i fynegi pryder na chwyno am y gwasanaethau yr oeddent wedi'u cael yn y practis. Nid oedd unrhyw bosteri na thafenni cwyno penodol ar gael i

gleifion yn yr ardal aros. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth o ran cwynion a phryderon ar gael yn nhrefn y practis. Gwnaethom drafod hyn â staff y bwrdd iechyd yn ystod ein hymweliad ac, erbyn diwedd ein hymweliad, dangoswyd posteri inni a oedd wedi cael eu rhoi yn y man aros a oedd yn hysbysu cleifion ynghylch y broses i'w dilyn pe bai angen iddynt godi cwyn neu bryder.

Roedd blwch yn y brif ystafell aros i bobl bostio sylwadau neu bryderon am y gwasanaeth.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion yn cael eu cyhoeddi.



## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod gan y practis brosesau a gweithdrefnau ar waith i ddarparu a hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd trafodaethau ag aelodau'r staff yn atgyfnerthu'r gred bod y gwasanaethau a oedd yn cael eu cyflenwi yn canolbwyntio ar y claf a'u bod wedi'u hymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'w cleifion. Roedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn y man aros yn rhoi cymorth a chyingor i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Daeth materion i'r amlwg mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw'r adeilad a'r risgiau sy'n ymwneud â chynnal practis meddygon teulu. Cynghorir y bwrdd iechyd i werthuso'r prosesau cyfredol sydd ar waith wrth reoli risgiau a hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch cadarn.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd pob un heblaw un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn teimlo ei fod naill ai'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd i fynd i mewn i'r adeilad. Roedd lleoedd parcio ar gael y tu blaen i'r practis, wrth ei ochr ac y tu ôl iddo. Nodwyd mai prin oedd y lleoedd parcio a oedd ar gael ar brydiau oherwydd nifer y cleifion a oedd yn dod i'r practis. Roedd manau parcio anabl ar gael hefyd.

Fel rhan o'r arolygiad, aethom am daith o gwmpas yr adeilad. Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda; fodd bynnag, nodwyd gwelliannau a oedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau unioni yn eu cylch. Roedd y man aros yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai materion a allai achosi perygl i gleifion. Roedd cadair yn y man aros a oedd wedi torri. Nid oedd staff y practis yn ymwybodol o'r broblem hon. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith monitro rheolaidd o'r holl ardaloedd ar waith er mwyn sicrhau nad yw'r cleifion mewn perygl o ganlyniad i waith cynnal a chadw gwael. Yn ogystal,

roedd rhai o'r teils carpedi o flaen desg y dderbynfa yn annigonol ac yn dechrau codi o'r llawr, gan achosi perygl y gallai cleifion syrthio drostynt. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion hyn o ran gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod prosesau yn cael eu rhoi ar waith sy'n galluogi staff i nodi pryderon ynghylch materion cynnal a chadw a bod gwiriadau rheolaidd ar waith i fynd i'r afael â'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl.

Nid oedd modd inni weld asesiad risg ar gyfer yr adeilad. Roedd asesiadau risg ar gael ar gyfer cangen arall y practis. Cawsom ein hysbysu gan y meddyg teulu cyflogedig fod gwaith wedi'i gyflawni mewn perthynas â diogelwch tân, ond nid oeddem yn gallu gweld yr asesiad ar ddiwrnod ein hymweliad.

Cawsom ein hysbysu gan y practis fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn y practis a gwelwyd tystiolaeth o hyn wedi'i nodi ar yr offer. Fodd bynnag, gwelsom wyntyll mewn un ystafell driniaeth a oedd yn dangos bod dyddiad y prawf dyfeisiau cludadwy wedi dod i ben ac roedd yn peri perygl i staff a chleifion am fod y plwg wedi torri ac nid oedd yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd gwastraff clinigol a gwastraff math domestig yn cael eu storio mewn biniau priodol. Gwnaethom nodi bod y bin gwastraff clinigol wedi'i gloi yn briodol ond nad oedd wedi'i gadw'n ddiogel. Mae posibilrwydd y gallai'r bin hwn gael ei symud, a gallai ei gynnwys beri perygl i bobl. Rhaid i'r practis sicrhau bod diogelwch gwastraff clinigol yn cael ei wella.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl orchuddion llawr yn addas at y diben ac nad ydynt yn achosi perygl baglu i'r cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl seddau yn addas at y diben ac nad ydynt yn peri perygl i gleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC gan ddisgrifio sut y mae'n bwriadu sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'r adeilad yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i gofnodi'n briodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a staff yn ddiogel pe bai tân a bod asesiad risg tân dilys ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl offer trydanol wedi cael profion dyfeisiau cludadwy er mwyn sicrhau diogelwch a lles yr holl gleifion a staff yn y practis.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella diogelwch biniau gwastraff clinigol.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod ein hymweliad, nodwyd bod y practis yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Gwnaethom ymweld â thai bach y cleifion a gweld bod angen gwneud rhai gwelliannau ynghylch gwneud biniau ar gael sy'n finiau a weithredir â throed a gwneud biniau gwastraff glanweithiol ar gael yn y cyfleuster tai bach i bobl anabl.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo a thywelion papur ar gyfer sychu dwylo ar gael yn yr holl fannau clinigol a'r toiledau. Gwelsom dap a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn ystafell driniaeth a oedd wedi erydu ac roedd angen gosod un newydd. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl dapiau yn addas at y diben a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis meddyg teulu; roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod pob bin yn y toiledau yn cael ei weithredu â throed a bod biniau gwastraff glanweithiol ar gael yn y toiledau i bobl anabl hefyd.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl dapiau yn addas at y diben a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd taflen y practis yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y gallai cleifion wneud cais am bresgripsiynau amlroddadwy. Y dulliau a oedd ar gael i gleifion oedd naill ai cyflwyno archeb ar gyfer presgripsiwn amlroddadwy yn y practis, gadael cais mewn fferyllfa leol, neu drwy ddefnyddio [porth Fy Iechyd Ar-lein](https://www.myhealthonline-) <<https://www.myhealthonline->

[emisweb.wales.nhs.uk/account/login?ReturnUrl=%2F](https://emisweb.wales.nhs.uk/account/login?ReturnUrl=%2F)<sup>1</sup>. Cawsom wybod ei fod yn bolisi'r practis i geisio awdurdodi presgripsiynau amlroddadwy o fewn 24 awr.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom gwprdd meddyginiaeth nad oedd yn cael ei fonitro'n rheolaidd na'i archwilio er mwyn sicrhau nad oedd y dyddiad wedi dod i ben ar yr holl feddyginiaeth. Gwelsom feddyginiaeth a oedd yn nodi bod y dyddiad wedi dod i ben. Cynghorir y bwrdd iechyd i gyflwyno systemau diogel o reoli'r holl feddyginiaethau sy'n cael eu storio yn y practis.

Roedd yr oergelloedd a oedd yn storio'r meddyginiaethau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac roedd cofnodion dyddiol o'r tymheredd ar gael. Nid oedd tymheredd yr ystafelloedd a oedd yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaeth yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. Gall rhai meddyginiaethau bydru os yw'r tymheredd uwchlaw 25°C. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal cofnodion rheolaidd o dymheredd ystafelloedd a rhoi prosesau ar waith os yw'r tymheredd yn cynyddu uwchlaw 25°C.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno systemau a fydd yn dangos pa feddyginiaethau sy'n cael eu storio yn y practis y mae angen eu gwaredu neu brynu rhai newydd yn eu lle.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd yr ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod protocol ar waith os yw'r tymheredd yn cynyddu uwchlaw 25°C.

#### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a gweithdrefnau clir ar waith mewn perthynas ag amddiffyn plant a diogelu oedolion. Roedd y staff a oedd yn

---

<sup>1</sup> Mae Fy Iechyd Ar-lein yn galluogi cleifion i wneud apwyntiadau a'u canslo, archebu presgripsiynau amlroddadwy, diweddarau gwybodaeth bersonol, ac anfon negeseuon ar-lein at eu meddyg teulu. Mae'r gwasanaethau hyn yn ddibynnol ar y practis.

gweithio yn y practis yn arddangos dealltwriaeth dda o faterion diogelu plant ac oedolion. Roedd staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai angen iddynt nodi unrhyw bryder.

Nid oedd yn bosibl i ni gadarnhau, yn ôl y cofnodion a welsom, a oedd yr holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant diogelu dynodedig ar gyfer plant ac oedolion. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welwyd yn anghyflawn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant dynodedig mewn diogelu plant ac oedolion a bod yr holl gofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal a'u cadw i safon foddhaol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn ystod ein hymweliad, cawsom ein hysbysu bod y dyfeisiau ac offer meddygol a oedd ar gael yn y practis yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Cafodd yr offer meddygol brys a oedd ar gael yn y practis eu gwerthuso yn ystod ein hymweliad. Nodwyd bod offer digonol ar gael a oedd yn addas i fodloni gofynion argyfwng meddygol yn ôl y galw.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Llwyddwyd i wneud hyn gan ddefnyddio'r system Datix,<sup>2</sup> sy'n cael ei gweithredu gan fyrddau

---

<sup>2</sup> System ar gyfer cofnodi digwyddiadau yw Datix, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer cofnodi, archwilio a dadansoddi digwyddiadau.

iechyd. Roedd digwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi yn cael eu cofnodi a'u huwchgyfeirio. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu rheoli yn lleol yn y practis am mai prin oedd y dystiolaeth ynghylch sut roedd dysgu yn sgil y fath ddigwyddiadau yn cael ei gyfleu a'i drafod gan staff. Nid oedd llawer o gyfarfodydd staff yn cael eu cynnal ar hyn o bryd a chawsom ein hysbysu bod cryn dipyn o amser ers y cyfarfod diwethaf. Cynghorir y bwrdd iechyd i aildechrau cyfarfodydd staff rheolaidd gydag eitem benodol ar yr agenda ar gyfer trafod digwyddiadau a galluogi'r tîm i ddysgu yn sgil y fath ddigwyddiadau.

Oherwydd y ddibyniaeth ar feddygon teulu locwm, roedd yr holl gwestiynau/ymholiadau mewn perthynas â chyflyrau cleifion ac ail farn fewnol yn cael eu ceisio gan y meddyg teulu llawn amser parhaol. Roedd y meddyg teulu hwn wedi creu perthnasau da ag ymgynghorwyr ysbyty lleol, ac roedd yn gallu cysylltu â nhw am gyngor a chymorth ychwanegol yn ôl y galw. Ar hyn o bryd, nid oedd canlyniadau'r atgyfeiriadau yn cael eu gwerthuso ac nid oedd adolygiadau mewnol ffurfiol gan gymheiriaid yn cael eu cynnal. Rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso'r meysydd hyn o ddarpariaeth y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Cynghorir y bwrdd iechyd i aildechrau cyfarfodydd staff rheolaidd a sicrhau bod digwyddiadau / digwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi yn cael eu trafod gan y staff priodol a'u cyfleu i holl dîm y staff i'w helpu i ddysgu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno systemau i werthuso canlyniadau atgyfeiriadau a wneir i ysbytai eilaidd/trydyddol.

#### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Prin oedd yr arloesedd a welsom yn digwydd yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod fferylllydd yn ymgymryd â phrosiectau a oedd yn edrych ar grwpiau penodol o feddyginiaeth ac adolygu eu rheolaeth a'u heffeithiolrwydd cyffredinol. Er enghraifft, gwelsom fod meddyginiaethau megis warfarin a benzodiazepine yn cael eu gwerthuso a'u harchwilio ar gyfer y cleifion a oedd yn cymryd y meddyginiaethau hyn.

#### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Canfuom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ar waith gan y bwrdd iechyd.

## Cadw cofnodion

Roedd unigolyn yn gyfrifol am grynhoi nodiadau mewn swydd yn y practis ac roedd wedi cyflawni hyfforddiant penodol o ran defnyddio'r codau Read<sup>3</sup> cywir wrth grynhoi hanesion meddygol o'r gorffennol. Yn ystod ein hymweliad, nodwyd y byddai'r meddyg teulu cyflogedig yn gwerthuso ansawdd y gwaith crynhoi a chodio o bryd i'w gilydd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn. Cynghorir y bwrdd iechyd i werthuso'r maes ymarfer hwn a chyflwyno systemau sy'n ei alluogi i gynnal gwaith sicrwydd ansawdd o ran crynhoi a chodio a'u gwerthuso mewn modd cynhwysfawr a chadarn.

Nid oedd archwiliadau o gofnodion cleifion yn cael eu cynnal fel mater o drefn. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi archwiliadau ar waith fel rhan o weithgarwch sicrwydd ansawdd y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno systemau ffurfiol sy'n ei alluogi i gynnal gwaith sicrwydd ansawdd o ran gwybodaeth sydd wedi'i chrynhoi a'i chodio yn rheolaidd.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynnal archwiliadau o gofnodion cleifion fel rhan o'r gweithgarwch sicrwydd ansawdd yn y practis.

---

<sup>3</sup> Mae codau Read yn darparu geirfa safonol er mwyn i staff gofnodi gwybodaeth mewn cofnodion cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y practis yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd personél y bwrdd iechyd yn bresennol yn ystod ein hymweliad er mwyn darparu canllawiau a chefnogaeth reoli ar gyfer staff sy'n gweithio o ddydd i ddydd yn y practis.

Roedd rheolwr blaenorol y practis wedi gadael y lleoliad rhai wythnosau cyn ein hymweliad, ond roedd rheolwr practis newydd wedi cael ei recriwtio ac ar fin dechrau ei gyflogaeth ar unwaith ar ôl ein hymweliad.

Gwnaethom nodi bod angen gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant staff, rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd rheolwr practis wedi cael ei gyflogi yn ddiweddar ond nid oedd wedi dechrau ar ei waith yn y practis yn ffurfiol. Byddai'r unigolyn hwn yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac yn atebol i'r bwrdd iechyd.

Roedd yn amlwg yn ystod ein hymweliad bod y practis yn profi problemau sylweddol o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth. Dangosodd trafodaethau â'r staff nad oeddent yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth digonol oddi wrth y bwrdd iechyd. Roedd rhai aelodau o staff yn teimlo eu bod yn gweithio i'r eithaf oherwydd prinder staff a bod y morâl yn y practis yn dioddef oherwydd diffyg cefnogaeth gan y bwrdd iechyd. Mae ar y practis angen cymorth cryf gan y bwrdd iechyd, ym meysydd clinigol, rheolaeth ac arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth diogel ac effeithiol.



Roedd diffyg cofnod matrices hyfforddiant cyflawn a chynhwysfawr i staff yn ei wneud yn anodd i'r tîm arolygu gadarnhau pa hyfforddiant roedd y staff wedi'i fynychu. Er inni weld tystiolaeth o rywfaint o hyfforddiant, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gan yr holl staff yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'w rolau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â staff a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i ddarparu'r gwasanaethau dynodedig sydd eu hangen yn ystod y cyfnod hwn o brinder staff.

Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu system er mwyn cael mynediad at wybodaeth am hyfforddiant a'i hadolygu'n hawdd. Lle nodir nad yw staff y practis wedi mynychu hyfforddiant, dylid gwneud trefniadau i roi sylw i'r mater hwn yn ôl yr angen.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y practis yn ddibynnol iawn ar feddygon teulu locwm er mwyn darparu ei wasanaethau meddygol. Roedd y bwrdd iechyd wrthi'n ceisio recriwtio meddygon teulu i'r practis. Yn ogystal, roedd saith swydd wag ar gyfer nyrsys ar gael. Nododd cleifion yn yr holiaduron nad oedd y problemau staffio hyn yn hyrwyddo dilyniant gofal a gwerthfawrogiad trylwyr o'u hanghenion a'u gofynion gan glinigwyr - ac roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn ategu hyn.

Canfuom nad oedd arfarniadau blynyddol staff wedi cael eu cynnal yn rheolaidd. Unwaith eto, roedd hyn yn dangos diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis. Cawsom ein hysbysu y byddai'r rheolwr practis newydd yn gwerthuso'r maes hwn o reoli staff ac yn rhoi cynllun arfarnu blynyddol ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau amserol, yn ogystal â sesiynau cymorth.

Yn ystod trafodaethau â nyrsys, cadarnhawyd nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn â mynychu'r hyfforddiant gofynnol er mwyn cael ailddilysiad<sup>4</sup> o'u cofrestriad proffesiynol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â sut y bydd yn darparu cefnogaeth i'r practis yn ystod y cyfnod hwn o anawsterau staffio er mwyn sicrhau bod y practis yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol.

Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl staff.

---

<sup>4</sup> Ailddilysiad yw'r broses newydd y mae angen i bob nyrs a bydwraig yn y DU ei dilyn er mwyn cadw eu cofrestriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

## 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau o bractisau meddygon teulu fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau meddygon teulu yn diwallu [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu'r [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd yr wybodaeth yn y man aros yn ddigonol ar gyfer cleifion ynghylch y broses o godi cwyn/pryder.	Nid oedd y cleifion yn gwbl ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn er mwyn adrodd cwynion/pryderon.	Tynnwyd hyn at sylw staff y bwrdd iechyd yn ystod ein hymweliad arolygu.	Gosodwyd posteri ychwanegol yn y manau aros a oedd yn hysbysu cleifion am y broses gwyno a'r dulliau o adrodd cwyn/pryder.

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Meddygfa Minafon

**Dyddiad yr arolygiad:** 21/06/2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd wedi'u nodi				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Meddygfa Minafon

**Dyddiad yr arolygiad:** 21/06/2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai dim ond y llyfryn practis mwyaf cyfredol sydd ar gael.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	Gwaredu ar yr holl hen daflenni a sicrhau mai dim ond y copi mwyaf cyfredol sydd ar gael yn y practis. Sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd.	Rheolwr y Practis	31/8/2017
Dylai'r bwrdd iechyd werthuso a rhoi trefniadau priodol ar waith i leihau'r tebygrwydd o sgysiau'n cael eu clywed (gan bobl sy'n aros yn y coridor y tu ôl i ddrws y dderbynfa) pan fydd cleifion/gofalwyr yn siarad â staff y dderbynfa.	4.1 Gofal ag urddas	Y cleifion i aros yn y man aros nes iddynt gael eu galw ar gyfer eu hapwyntiad. Y cadeiriau i gael eu symud o'r ardaloedd y tu allan i'r ystafelloedd ymgynghori. Linell ar lawr y dderbynfa gyda hysbysiadau amlwg yn gofyn i gleifion barchu preifatrwydd y sawl o'u	Rheolwr y Practis	15/9/2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni ar gael yn yr holl ystafelloedd ymgynghori ar bob adeg.</p>		<p>blaenau ac i aros tu ôl i'r llinell nes bod y derbynnydd yn rhydd.</p> <p>Drysau mynediad at ardal y dderbynfa i gael eu cadw ar gau.</p> <p>Ffenestr lithro o wydr yn ardal y dderbynfa i gael ei chadw ar gau pan nad oes neb yn siarad â chleifion.</p>		
		<p>Cynllun tymor hwy - gwaredu ar yr holl ddogfennau a'u gosod mewn storfa ganolog. Gwneud newidiadau strwythurol i'r swyddfa gefn, ailosod gwifrau ac ati, er mwyn galluogi'r derbynwyr sydd ar y ffôn i symud i mewn i'r swyddfa.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>30/6/2018</p> <p>Cwblhawyd</p>
		<p>Ailosod y llen sydd ar goll o'r ystafell ymgynghori, a hynny ar unwaith.</p> <p>Bydd yr holl lenni yn cael eu disodli â rhai tafladwy a bydd nyrs y practis yn gyfrifol am osod rhai newydd yn y lle, yn unol â'r canllawiau.</p>	<p>Nyrs y Practis</p>	<p>30/9/2017</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen monitro cofnodion cleifion a'u harchwilio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth frysbenneu yn cael ei chynnwys a bod cofnodion o ymgynghoriadau yn cael eu cwblhau mewn ffordd gynhwysfawr.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael yn y practis ac y tu allan ynghylch manylion cyswllt y gwasanaethau y tu allan i oriau.</p>	4.2 Gwybodaeth i gleifion	<p>Cynnal archwiliad o gofnodion ar unwaith ac archwiliadau misol i ddilyn. Rhannu'r wybodaeth hon â'r darparwr brysbenneu. Pan fyddwn yn fodlon bod y cofnodion yn cael eu cwblhau yn gynhwysfawr, bydd archwiliadau yn cael eu cynnal bob chwarter.</p> <p>Hysbysiad i'w osod ar y drws ffrynt a'i arddangos yn amlwg yn y man aros.</p> <p>Gwybodaeth i gael ei rhoi yn nhaflenni'r cleifion ac ar y wefan.</p>	<p>Dr Paul Morris</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31/10/2017</p> <p>31/8/2017</p> <p>30/9/2017</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd / staff sy'n gweithio yn y practis hysbysu cleifion am yr angen i holi cwestiynau perthnasol sy'n ymwneud â'u hiechyd er mwyn cynorthwyo gyda'u gofal a'u triniaeth yn y practis.</p>	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Hysbysiad i gael ei arddangos yn y man aros.</p> <p>Gwybodaeth i gael ei hychwanegu at y wefan. Trwy gyfarfod staff/hyfforddiant, archwilio a yw'n bosib rhoi neges wedi ei recordio ynglŷn â hyn ar y system ffôn.</p>	Rheolwr y Practis	<p>31/8/2017</p> <p>31/10/2017</p>
<p>Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r system apwyntiadau gyfredol a nifer yr apwyntiadau</p>	5.1 Mynediad amserol	Bydd y practis yn ymgymryd ag archwiliad o'i system apwyntiadau, gan	Rheolwr y Practis	31/1/2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>sydd ar gael, gan sicrhau bod barn y cleifion yn cael ei hystyried a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn unol â hyn.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo brosesau ar waith i sicrhau bod cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer ymgynghoriadau arbenigol ar frys mewn ysbytai wedi derbyn cadarnhad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn gan yr ysbyty a fydd yn eu derbyn.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu systemau a fydd yn ei alluogi i werthuso'r atgyfeiriadau sydd wedi cael eu gwneud at arbenigeddau eilaidd a thrydyddol mewn ysbytai.</p>		<p>edrych i gael cyfuniad boddhaol o apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw ac apwyntiadau ar yr un diwrnod. Bydd y practis yn casglu barn y Grŵp Cyfranogiad Cleifion ynghylch unrhyw newidiadau a gynlluniwyd a bydd yn ail-archwilio'r system ar ôl i'r newidiadau gael eu cwblhau.</p> <p>Mae staff yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau canser ar frys wedi cael eu derbyn. Os yw cleifion wedi cael eu diraddio, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hanfon at glinigydd er mwyn asesu a yw hyn yn foddhaol.</p> <p>Bydd y practis yn cyflwyno archwiliadau ac adolygiadau o batrymau atgyfeirio i'w gyfarfodydd clinigol.</p>	<p>Ysgrifenyddion Meddygol</p> <p>Rheolwr y Practis / Arweinydd Clinigol y Meddygon Teulu</p>	<p>31/8/2017</p> <p>28/2/2018</p>
Rhaid i'r practis ailgydio mewn cyfarfodydd	6.1 Cynllunio	Mae cyfarfodydd uwch-reolwyr wedi	Rheolwr y Practis	Ar waith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>practis er mwyn galluogi'r holl staff i gyfarfod yn rheolaidd a thrafod a chynllunio anghenion gofal iechyd cleifion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.</p>	<p>gofal i hybu annibyniaeth</p>	<p>dechrau ac yn cael eu cynnal bob pythefnos. Mae'r cofnodion yn cael eu rhoi ar y gyriant a rennir, ac maent ar gael i'r holl staff.</p> <p>Mae cyfarfodydd staff wedi dechrau a byddant yn cael eu cynnal yn fisol.</p> <p>Cyfarfodydd o'r tîm amlddisgyblaethol a chyfarfodydd eiddilwch i aildechrau.</p>		<p>Ar waith</p> <p>30/9/2017</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion yn cael eu cyhoeddi.</p>	<p>6.3 Gwrando a dysgu o adborth</p>	<p>Rheolwr y practis i drafod yn ystod y cyfarfod Grŵp Cyfranogiad Cleifion nesaf pwy, ymhlith y Grŵp Cyfranogiad Cleifion, a fydd yn gyfrifol am gyhoeddi'r cofnodion ac ym mhle y byddant yn cael eu cyhoeddi.</p>	<p>Rheolwr y Practis / Ysgrifenyddes y Grŵp Cyfranogiad Cleifion</p>	<p>30/11/2017</p>
<p><b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b></p>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl orchuddion llawr yn addas at y diben ac nad ydynt yn achosi perygl baglu i'r cleifion.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl seddau yn addas at y diben ac nad ydynt yn peri perygl i gleifion.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p>	<p>Asesiad iechyd a diogelwch a risg tân ar gyfer yr adeilad cyfan i'w gynnal ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a rheolwr y practis.</p> <p>Yr Adran Ystadau i gael gwahoddiad i gynnal arolygiad ar y cyd o'r practis a</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31/12/2017</p> <p>31/10/2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC gan ddisgrifio sut y mae'n bwriadu sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'r adeilad yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i gofnodi'n briodol.</p>		<p>bydd ceisiadau am waith mân yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob man sydd angen ei drwsio/atgyweirio.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31/10/2017</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a staff yn ddiogel pe bai tân a bod asesiad risg tân dilys ar waith.</p>		<p>Dewis aelod o staff i gynnal gwiriadau iechyd a diogelwch misol ar gyfer yr holl adeilad, gan gofnodi ac anfon canfyddiadau yn ôl atreolwr y practis. Cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch drwy hyfforddiant staff, i annog adrodd ar faterion iechyd a diogelwch.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31/10/2017</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl offer trydanol wedi cael profion dyfeisiau cludadwy er mwyn sicrhau diogelwch a lles yr holl gleifion a staff yn y practis.</p>		<p>Dewis aelod o staff i gynnal ymarferion tân rheolaidd a chofnodi'r canlyniadau.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31/10/2017</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd wella diogelwch biniau</p>		<p>Sicrhau bod yr holl offer trydanol ar gael pan fod profion dyfeisiau cludadwy ar waith. Pwysleisio yn ystod cyfarfodydd staff pwysigwydd gwirio eitemau trydanol nad ydynt yn cael eu</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31/10/2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwastraff clinigol.		<p>defnyddio'n aml cyn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod ganddynt brawf dyfeisiau cludadwy cyfredol.</p> <p>Cais am fân waith i gael ei drefnu gyda'r Adran Ystadau er mwyn i finiau clinigol gael eu cadwyno i'r adeilad/llawr.</p>		
<p>Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod pob bin yn y toiledau yn cael ei weithredu â throed a bod biniau gwastraff glanweithiol ar gael yn y toiledau i bobl anabl hefyd.</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl dapiau yn addas at y diben a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.</p>	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	<p>Biniau a weithredir â throed i gael eu rhoi ym mhob toiled.</p> <p>Sicrhau bod biniau gwastraff glanweithiol ar gael yn y toiledau i bobl anabl.</p> <p>(Fel yr uchod – Ystadau i ymweld a chyflwyno cais ar gyfer gwaith.)</p>	Rheolwr y Practis	31/10/2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno systemau a fydd yn dangos pa feddyginiaethau sy'n cael eu storio yn y practis y mae angen eu gwaredu neu brynu rhai newydd yn eu lle.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Nyrs i gynnal gwiriadau wythnosol ar gyffuriau, diffibrilwyr, chwistrellau, nodwyddau ac ocsigen a gwneud nodyn yn y log a dinistrio/gosod rhai newydd	Nyrs practis sydd wedi cael ei henwebu.	30/9/2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd yr ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod protocol ar waith os yw'r tymheredd yn cynyddu uwchlaw 25°C.</p>		<p>yn eu lle yn ôl y gofyn.</p> <p>Bydd tymereddau yn cael eu monitro'n rheolaidd. Os bydd tymheredd uwchlaw 25°C, bydd cyffuriau yn cael eu symud i ystafell oerach. Os oes tystiolaeth bod hon yn broblem sy'n ymddangos droeon, yna bydd y practis yn ystyried gosod uned aerdymheru. Hyfforddiant staff i sicrhau bod y nyrsys yn ymwybodol ynghylch y canllawiau sydd i'w dilyn.</p>	<p>Nyrs y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>30/9/2017</p> <p>30/9/2017</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant dynodedig mewn diogelu plant ac oedolion a bod yr holl gofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal a'u cadw i safon foddhaol.</p>	<p>2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl</p>	<p>Bydd system yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys staff locwm) wedi derbyn y lefel briodol o hyfforddiant diogelu ar gyfer eu swyddi a bod hyn wedi cael ei gofnodi yn eu cofnodion hyfforddiant ac yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>28/2/2018</p>
<p>Cynghorir y bwrdd iechyd i ailddechrau cyfarfodydd staff rheolaidd a sicrhau bod digwyddiadau / digwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi yn cael eu trafod gan y staff priodol a'u</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Mae cyfarfodydd staff bellach wedi dechrau. Digwyddiadau / digwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi i fod yn eitem reolaidd ar yr agenda i'w trafod a dysgu</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar waith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cyfleu i holl dîm y staff i'w helpu i ddysgu.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno systemau i werthuso canlyniadau atgyfeiriadau a wneir i ysbytai eilaidd/trydyddol.</p>		<p>yn eu sgil.</p> <p>Bydd yr agwedd hon ar adolygiad gan gymheiriaid yn cael ei chyflwyno i gyfarfodydd clinigol yn rheolaidd.</p>	<p>Rheolwr y Practis ac Arweinydd Clinigol y Meddygon Teulu</p>	<p>28/02/2018</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno systemau ffurfiol sy'n ei alluogi i gynnal gwaith sicrwydd ansawdd o ran gwybodaeth sydd wedi'i chrynhai a'i chodio yn rheolaidd.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynnal archwiliadau o gofnodion cleifion fel rhan o'r gweithgarwch sicrwydd ansawdd yn y practis.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Ymgymryd ag adolygiad ffurfiol o ansawdd cadw cofnodion gan gynnwys crynodebau clinigol, codio Read, a chofnodi data mewn ymgynghoriadau clinigol. Bydd y practis yn nodi a oes unrhyw faterion hyfforddiant yn sgil yr archwiliad hwn.</p>	<p>Dr Paul Morris</p>	<p>31/3/2018</p>

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â staff a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i ddarparu'r gwasanaethau dynodedig sydd eu hangen yn ystod y cyfnod hwn o brinder staff.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu system er mwyn cael mynediad at wybodaeth am hyfforddiant a'i hadolygu'n hawdd. Lle nodir nad yw staff y practis wedi mynychu hyfforddiant, dylid gwneud trefniadau i roi sylw i'r mater hwn yn ôl yr angen.</p>	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	<p>Trwy oruchwyliaeth glinigol, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd un i un.</p> <p>Trwy'r Cofnod Staff Electronig - rheolwr y practis i fynychu hyfforddiant ar ddiwedd mis Awst. Mae'r system hon yn cofnodi holl hyfforddiant staff ac yn hysbysu rheolwr y practis pan fod angen adnewyddu'r hyfforddiant.</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>28/2/2018</p> <p>31/12/2017</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â sut y bydd yn darparu cefnogaeth i'r practis yn ystod y cyfnod hwn o anawsterau staffio er mwyn sicrhau bod y practis yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl staff.</p>	7.1 Gweithlu	<p>Bydd Pennaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol yn darparu cymorth i reolwr y practis, clinigwyr ac uwch staff yn y feddygfa i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i'r holl bractis.</p> <p>Fel yr uchod trwy'r Cofnod Staff Electronig – bydd Gwerthusiadau / Adolygiadau Datblygiad Personol yn</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol / Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol</p>	<p>Yn parhau</p> <p>Bydd proses adroddiad blynyddol yn cael ei</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cael eu cynnal yn flynyddol fel yr isod ac yn cael eu cofnodi trwy'r Cofnod Staff Electronig.</p> <p>Staff Gweinyddol / Rheolwr y Practis</p> <p>Nyrsys / Rheolwr Nyrsys (os nad yw Rheolwr Nyrsys wedi cael ei benodi gan Uwch-ymgyngorydd Nyrsys Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)</p> <p>Rheolwr y Practis / Pennaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol</p>	Rheolwr y Practis	sefydlu erbyn 31/3/2018.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):PAMELA PARKER**

**Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS**

**Dyddiad:16/8/2017**